Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

12 Ebrill 2019



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6307**
E-bost: **Manon.George@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

12 Ebrill 2019

**Awduron:**
Manon George, Peter Hill, Sara Moran a Gareth Thomas

Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Datblygiadau yn San Steffan ..... 2**

Llinell amser o'r prif ddatblygiadau ..... 2

Deddfwriaeth Brexit ..... 8

**3. Datblygiadau ym Mrwsel ..... 11**

**4. Datblygiadau yng Nghymru ..... 15**

**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Thrafodaethau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ers 25 Mawrth 2019.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Dadansoddiad o'r datblygiadau allweddol yn San Steffan a Brwsel; a
- Dadansoddiad o ymateb Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i'r datblygiadau diweddaraf

# 2. Datblygiadau yn San Steffan

## Llinell amser o'r prif ddatblygiadau

Ar 25 Mawrth, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad** i Dŷ'r Cyffredin ar benderfyniad y Cyngor Ewropeaidd yr wythnos flaenorol i gymeradwyo'r hyn a elwir yn **gytundeb Strasbourg**, yn ogystal â chaniatáu estyniad byr i broses Erthygl 50. Tra'n gwneud hynny, pwysleisiodd safbwynt y Cyngor ar y Cytundeb Ymadael, gan ddweud sut bynnag y bydd y Tŷ yn penderfynu bwrw ymlaen yr wythnos nesaf, dylai pawb fod yn glir nad yw newid y Cytundeb Ymadael yn opsiwn.

Dywedodd y Prif Weinidog ei bod hi'n parhau i gredu mai'r ffordd gywir ymlaen i'r DU yw gadael yr UE gyda chytundeb cyn gynted â phosibl—a'r dyddiad hwnnw bellach yw 22 Mai. Nododd hefyd ei bod hi'n credu nad oedd digon o gefnogaeth yn y Tŷ bryd hwnnw i ailgyflwyno'r cytundeb am drydedd bleidlais ystyrlon, gan ychwanegu y byddai'n parhau i drafod â chydweithwyr ym mhob plaid wleidyddol i adeiladu cefnogaeth, er mwyn cyflwyno'r bleidlais a sicrhau Brexit. Os na fydd hynny'n digwydd, dywedodd:

> The bottom line remains that if the House does not approve the withdrawal agreement this week and is not prepared to countenance leaving without a deal, we will have to seek a longer extension. This would entail the UK having to hold European elections, and it would mean that we will not have been able to guarantee Brexit.

Yn dilyn datganiad y Prif Weinidog, roedd pleidlais **ar y cynnig** yr oedd yn rhaid i'r Llywodraeth ei gynnig o dan Ddeddf Ymadael â'r UE 2018 ar ôl i'r Senedd wrthod y cynnig am yr ail waith ar 12 Mawrth. Mae'r cynnig hwn yn 'nodi'r' datganiad sy'n amlinellu cynllun y Llywodraeth i ofyn i'r UE am estyniad i Erthygl 50. Yn dilyn y ddadl, pleidleisiodd ASau o blaid gwelliant i'r cynnig gan Oliver Letwin (329 pleidlais i 302). Mae'r gwelliant yn ychwanegu cymal i ddiwedd y cynnig i nodi ffordd i'r Tŷ drafod a phleidleisio ar ffyrdd amgen ymlaen. Dyma'r gwelliant sydd wedi'i gynllunio i baratoi'r ffordd ar gyfer y 'pleidleisiau dangosol'. I wneud hyn, mae'n atal Rheol Sefydlog 14 (1)—sy'n rhoi blaenoriaeth i fusnes y llywodraeth—ar 27 Mawrth. Yn hytrach, rhoddir blaenoriaeth i **gynnig busnes** sy'n gysylltiedig â'r DU yn ymadael â'r UE, ac yna i gynigion eraill sy'n ymwneud ag ymadael a'r berthynas â'r UE  yn y dyfodol.





Dywedodd y Prif Weinidog ei bod yn credu bod cytundeb gwelliant Letwin yn gosod cynsail digroeso, a fyddai'n gwyrdroi'r cydbwysedd rhwng ein sefydliadau democrataidd. Cyn y bleidlais, dywedodd:

> I must confess that I am sceptical about such a process of indicative votes. When we have tried this kind of thing in the past, it has produced contradictory outcomes or no outcome at all. There is a further risk when it comes to Brexit, as the UK is only one half of the equation and the votes could lead to an outcome that is unnegotiable with the EU.

Ar 27 Mawrth 2019, cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin bleidleisiau dangosol i geisio cael mwyafrif ar gyfer y camau nesaf yn y broses Brexit. Cyflwynwyd wyth opsiwn ond cafodd pob un ei wrthod gan ASau fel a ganlyn:

| Cynnig | Disgrifiad | O blaid | Yn erbyn |
|---|---|---|---|
| B | Dim cytundeb | 60 | **400** |
| D | Marchnad gyffredin 2.0 | 188 | **283** |
| H | EFTA a'r EEA | 65 | **377** |
| J | Undeb tollau | 264 | **272** |
| K | Cynllun amgen y blaid Lafur | 237 | **307** |
| L | Diddymu i osgoi 'dim cytundeb' | 184 | **293** |
| M | Pleidlais gyhoeddus i gadarnhau | 268 | **295** |
| O | Trefniadau ffafriol amodol | 139 | **422** |

Yn ogystal, **dywedwyd** fod y Prif Weinidog wedi cynnig ymddiswyddo pe byddai'r Cytundeb Ymadael, a oedd wedi cael ei wrthod ddwywaith, yn cael ei dderbyn. Tra'n siarad ym Mhwyllgor 1922 y meinciau cefn, cydnabu'r Prif Weinidog ei bod hi'n barod i adael ei swydd yn gynharach na'r bwriad er mwyn peidio sefyll yn y ffordd o ail gam Brexit. Ar 18 Mawrth 2019, cadarnhaodd John Bercow fod confensiwn seneddol yn gwahardd yr un cwestiwn rhag cael ei gyflwyno droeon a dywedodd na fydd trydedd bleidlais yn cael ei chaniatáu heb newidiadau o ran sylwedd.

Ar 27 Mawrth 2019, trafododd dau Dŷ'r Senedd **Reoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Diwrnod Ymadael) (Diwygio) 2019**. Mae'r offeryn statudol (OS) yn diwygio diffiniad 'diwrnod ymadael' yn **Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**, sef 29 Mawrth 2019 yn flaenorol. Yn dilyn **cais gan Lywodraeth y DU**, cytunodd y **Cyngor Ewropeaidd** ar estyniad ar 22 Mawrth 2019. Y 'diwrnod ymadael' nawr fydd naill ai 11pm ar 22 Mai 2019 (os caiff cytundeb ymadael y Prif Weinidog ei gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin erbyn 29 Mawrth) neu 11pm ar 12 Ebrill 2019 (os na). Pleidleisiodd **Tŷ'r Cyffredin** 441 i 105 o blaid yr OS ac fe ddaw i rym ar unwaith.

Yn Nhŷ'r Arglwyddi, eglurodd **Arglwydd Callanan:**

> A large volume of EU exit legislation preparing the statute book for the moment when EU law ceases to apply is due to enter into force automatically on exit day. Without this instrument being put in place, there would be a clash in our domestic law whereby contradictory provisions applied to both EU rules and new UK rules simultaneously, and in some cases new UK rules would replace EU rules prematurely.

Mae'r OS yn parhau i fod yn y cyfnod dadlau yn Nhŷ'r Arglwyddi.

O dan Reol Sefydlog 30A y Cynulliad, mae'n rhaid i aelod o'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'n werth nodi nad yw Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rheoliadau hyn.

Ar **29 Mawrth** bu Tŷ'r Cyffredin yn trafod ac yn pleidleisio ar **gynnig** i gymeradwyo'r Cytundeb Ymadael. Roedd y cynnig yn gofyn i Dŷ'r Cyffredin gymeradwyo'r Cytundeb Ymadael yn unig, nid y Datganiad Gwleidyddol hefyd, ar ôl i Lefarydd y Tŷ, John Bercow, ddyfarnu ar **18 Mawrth** na fyddai trydydd 'pleidlais ystyrlon' o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) yn cael ei chaniatáu heb newidiadau o ran sylwedd. Fodd bynnag, gwrthodwyd y Cytundeb Ymadael unwaith eto yn y Senedd, gydag ASau yn pleidleisio 344 i 286 yn erbyn y cynnig.

Yn dilyn y bleidlais, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad** pan ddywedodd:

> I think that it should be a matter of profound regret to every Member of this House that once again we have been unable to support leaving the European Union in an orderly fashion. The implications of the House's decision are grave. The legal default now is that the United Kingdom is due to leave the European Union on 12 April, in just 14 days' time. That is not enough time to agree, legislate for and ratify a deal. Yet the House has been clear that it will not permit leaving without a deal, so we will have to agree an alternative way forward.
>
> The European Union has been clear that any further extension will need to have a clear purpose and will need to be agreed unanimously by the Heads of State of the other 27 member states ahead of 12 April. It is almost certain to involve the United Kingdom being required to hold European parliamentary elections.

Ar **1 Ebrill**, cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin ail rownd o bleidleisiau dangosol i geisio cael mwyafrif ar gyfer y camau nesaf yn y broses Brexit. **Cyflwynwyd pedwar opsiwn** ond cafodd pob un ei wrthod gan ASau fel a ganlyn:



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

| Cynnig | Disgrifiad | O blaid | Yn erbyn |
|---|---|---|---|
| C | Undeb Tollau | 273 | **276** |
| D | Marchnad Gyffredin 2.0 (y DU yn ymuno â'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac yn ffurfio undeb tollau newydd gyda'r UE) | 261 | **282** |
| E | Pleidlais gadarnhau gyhoeddus | 280 | **292** |
| G | Goruchafiaeth Seneddol | 191 | **292** |

Yn dilyn y pleidleisiau ar 1 Ebrill, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE Stephen Barclay mewn a **datganiad** i Dŷ'r Cyffredin:

> To secure any further extension, the Government will have to put forward a credible proposition to the EU as to what we will do with that extra time. This House has continuously rejected leaving without a deal, just as it has rejected not leaving at all. Therefore, the only option is to find a way through that allows the UK to leave with a deal. The Government continues to believe that the best course of action is to do so as soon as possible. If the House were to agree a deal this week, it may still be possible to avoid holding European parliamentary elections.

Ar **2 Ebrill** gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad yn dilyn diwrnod o gyfarfodydd y Cabinet, yn cadarnhau y bydd hi'n gofyn am estyniad pellach i Erthygl 50 er mwyn cyfarfod ag Arweinydd yr Wrthblaid i gytuno ar gynllun:

> Any plan would have to agree the current Withdrawal Agreement – it has already been negotiated with the 27 other members, and the EU has repeatedly said that it cannot and will not be reopened. The ideal outcome of this process would be to agree an approach on a Future Relationship that delivers on the result of the Referendum, that both the Leader of the Opposition and I could put to the House for approval, and which I could then take to next week's European Council.
>
> However, if we cannot agree on a single unified approach, then we would instead agree a number of options for the Future Relationship that we could put to the House in a series of votes to determine which course to pursue. Crucially, the Government stands ready to abide by the decision of the House. But to make this process work, the Opposition would need to agree to this too. The Government would then bring forward the Withdrawal Agreement Bill. We would want to agree a timetable for this Bill to ensure it is passed before 22nd May so that the United Kingdom need not take part in European Parliamentary Elections.

Cynhaliwyd trafodaethau gydag Arweinydd yr Wrthblaid, yn ogystal â Phrif Weinidogion yr Alban a Chymru ar 3 Ebrill.

Ar 2 Ebrill cyflwynodd Yvette Cooper AS Fil Aelodau Preifat, a gafodd ei roi drwy'r Senedd ar lwybr carlam.

Ar 3 Ebrill **trafodwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin** Cafodd Ail Ddarlleniad y Bil ei basio o 315-310, a chafodd Trydydd Darlleniad y Bil ei basio o un bleidlais yn unig, sef 313-312. Mae bellach wedi cwblhau ei daith trwy Dŷ'r Cyffredin, a chafodd ei drafod yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 ac 8 Ebrill. Yn dilyn hynny cafodd **Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2019** Gydsyniad Brenhinol ar 8 Ebrill. Mae Adran 1 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog Llywodraeth y DU wneud cynnig yn Nhŷ'r Cyffredin i ofyn am gymeradwyaeth am estyniad, sydd yna'n cael ei ddadlau. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo yn dilyn hynny, bydd yn rhaid i'r Prif Weinidog ysgrifennu at y Cyngor Ewropeaidd i ofyn am estyniad i'r dyddiad penodol hwnnw. Mae gwelliant 5, sydd wedi'i fewnosod yn Nhŷ'r Arglwyddi, yn golygu unwaith y cytunir ar ddyddiad ymestyn rhwng y DU a'r UE nid oes angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd.

Ar 3 Ebrill cynhaliodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ymadael â'r UE sesiwn dystiolaeth gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE, Stephen Barclay AS. Yn dilyn datganiad y Prif Weinidog ar 2 Ebrill, cadarnhaodd y bydd y Prif Weinidog yn gwneud cais swyddogol am estyniad pellach yng nghyfarfod Cyngor yr UE ar 10 Ebrill ac roedd yn dyfalu y byddai'r cais tan 22 Mai 2019 ond hefyd soniodd am estyniad posibl hyd at ddiwedd mis Mehefin 2019. Cadarnhaodd fod gan Lywodraeth y DU gynlluniau wrth gefn ar waith pe bai etholiadau Senedd Ewrop yn mynd yn eu blaenau yn y DU, gan gynnwys ad-dalu treuliau a dalwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Cadarnhaodd Stephen Barclay y byddai angen ail offeryn statudol er mwyn newid y "diwrnod ymadael" eto. Byddai p'un a fyddai trydedd rownd o bleidleisio dangosol yn digwydd ai peidio yn dibynnu ar drafodaethau a gynhaliwyd gydag Arweinydd yr Wrthblaid ar 3 Ebrill.

Trafodwyd rôl y gwledydd datganoledig yn fyr. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod Llywodraeth y DU yn awyddus i gynnwys y gwledydd datganoledig, yn enwedig ar lefel swyddogion, ac mae'n un o'r gwersi a ddysgwyd o gam cyntaf trafodaethau Brexit. Cadarnhaodd fod Llywodraeth y DU wedi comisiynu adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol yn y DU a bydd yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig bellach i'r Pwyllgor ynglŷn â hyn. Dywedodd fod materion yn bodoli o ran cynnwys gwledydd datganoledig yng nghysylltiadau rhyngwladol y DU yn y dyfodol, er enghraifft, yn y pen draw bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU, ond cadarnhaodd awydd i weithio'n agosach i rannu gwybodaeth.

Ar 5 Ebrill, **ysgrifennodd y Prif Weinidog at Donald Tusk** i ofyn am estyniad i Erthygl 50 hyd at 30 Mehefin 2019. Yn llythyr y Prif Weinidog, nododd ei bod hi'n gofyn am yr estyniad hwn, a hynny'n anfodlon, gan nad yw'r DU wedi gallu



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

cadarnhau'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol. Dywedodd hefyd mai ei bwriad yw y gall y DU gadarnhau'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol cyn 23 Mai, er mwyn i'r DU allu adael yr UE heb gynnal etholiadau ar gyfer Senedd Ewrop.

Ar 9 Ebrill, **trafododd Tŷ'r Cyffredin gynnig** i ymestyn Erthygl 50 hyd at 30 Mehefin 2019. Cyflwynodd Llywodraeth y DU y cynnig hwn gerbron Tŷ'r Cyffredin er mwyn cyflawni gofynion **Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2019**. Cymeradwyodd Tŷ'r Cyffredin y cynnig i ymestyn Erthygl 50 hyd at 30 Mehefin 2019 o 420 pleidlais i 110.

Ar 10 Ebrill, cynhaliodd y Cyngor Ewropeaidd uwchgynhadledd frys i drafod cais y Prif Weinidog i ymestyn Erthygl 50. **Cytunodd 27 aelod yr UE a'r DU** ar estyniad hyblyg i Erthygl 50 hyd at 31 Hydref 2019. Fodd bynnag, os gall y DU a'r UE gadarnhau'r Cytundeb Ymadael cyn hynny, gallai'r Cytundeb Ymadael ddod i rym cyn hynny. **Bydd diwrnod ymadael y DU o'r UE** yn digwydd naill ai ar ddiwrnod cyntaf y mis yn dilyn cwblhau'r gweithdrefnau cadarnhau, neu ar 1 Tachwedd 2019, yn dibynnu pa un fydd gyntaf.

Bydd rhaid i'r DU gynnal etholiadau ar gyfer Senedd Ewrop os yw'n parhau i fod yn aelod-wladwriaeth o'r UE rhwng 23-26 Mai 2019. Os yw'n methu â chynnal yr etholiadau, bydd y DU yn gadael yr UE ar 1 Mehefin 2019. Cadarnhaodd 27 aelod yr UE nad oes posibilrwydd o ailagor y Cytundeb Ymadael.

Ar 11 Ebrill gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad** yn dilyn y cytundeb i ymestyn Erthygl 50. Dywedodd:

> I have just met with Donald Tusk, the President of the European Council, where I agreed an extension to the Brexit process to the end of October at the latest...
>
> During the course of the extension, the European Council is clear that the UK will continue to hold full membership rights, as well as its obligations...
>
> Tomorrow I will be making a statement to the House of Commons.
>
> Further talks will also take place between the Government and the Opposition to seek a way forward.

Ar 11 Ebrill gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad i'r Tŷ'r Cyffredin.  Dywedodd:

> I welcome the discussions that have taken place with the Opposition in recent days - and the further talks which are resuming today.
>
> This is not the normal way of British politics - and it is uncomfortable for many in both the Government and Opposition parties.
>
> Reaching an agreement will not be easy, because to be successful it will require both sides to make compromises.
>
> But however challenging it may be politically, I profoundly believe that in this unique situation where the House is deadlocked, it is incumbent on both front benches to seek to work together to deliver what the British people voted for. And I think that the British people expect their politicians to do just that when the national interest demands it.
>
> I hope that we can reach an agreement on a single unified approach that we can put to the House for approval.
>
> But if we cannot do so soon, then we will seek to agree a small number of options for the future relationship that we will put to the House in a series of votes to determine which course to pursue.
>
> And as I have made clear before, the Government stands ready to abide by the decision of the House. But to make this process work, the Opposition would need to agree to this too.
>
> With the House's consent, we could also bring forward the Withdrawal Agreement Bill – which is a necessary element of any deal, whichever course we take.
>
> This Bill will take time to pass through both Houses, so if we want to get on with leaving, we need to start this process soon.
>
> And it could also provide a useful forum to resolve some of the outstanding issues in the future relationship.

## Deddfwriaeth Brexit

Cafodd **Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019** Gydsyniad Brenhinol ar 26 Mawrth.  Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r DU gynnal trefniadau gofal iechyd dwyochrog gyda'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir ar ôl Brexit, os bydd cytundeb Brexit neu senario dim cytundeb. Nid oedd ei ddarpariaethau yn gyfyngedig yn wreiddiol i drefniadau gyda'r AEE a'r Swistir, a byddai hefyd wedi caniatáu i'r DU gryfhau cytundebau gofal iechyd dwyochrog presennol gyda gwledydd y tu allan i'r UE, neu i weithredu rhai newydd. Yn dilyn ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin, cyflwynodd Tŷ'r Arglwyddi **sawl gwelliant**:

Yn gyntaf, gwrthodwyd cwmpas rhyngwladol y Bil ac yn dilyn hynny, cafodd ei gyfyngu i ofal iechyd cyfatebol rhwng y DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir. Arweiniodd hynny at newid enw'r Bil i Fil Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir).





Yn ail, cafodd y Bil ei ddiwygio i gynnwys gofyniad i ymgynghori â gwledydd datganoledig wrth wneud rheoliadau i weithredu cytundebau gofal iechyd newydd. Yn drydydd, cafodd gofynion adrodd manylach ei mewnosod.

Derbyniwyd y newidiadau hyn yn ddiweddarach gan Dŷ'r Cyffredin.

Gan fod y pwnc hwn o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad, mae confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad roi cydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil. Cytunodd y Cynulliad ar ei **gydsyniad i'r Bil** ar 12 Mawrth, tra cafodd y gwelliannau eu gwneud yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ni chafodd Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ei osod mewn perthynas â'r newidiadau a wnaed gan yr Arglwyddi.

Bill arall sydd â darpariaethau sylweddol i Gymru yw'r Bil Amaethyddiaeth. Ar 26 Mawrth, gosododd Llywodraeth Cymru **femorandwm cydsyniad deddfwriaethol** mewn perthynas â'r Bil. Yn y memorandwm hwnnw, mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn fodlon ar y gwelliannau a gyflwynwyd gan Weinidogion Llywodraeth y DU yn ystod Cyfnod y Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin mewn perthynas â'r Ardoll Cig Coch (Rhan 8), y gwelliannau i Atodlen 3 (Darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru) a'r gwelliannau i Ran 10 (Darpariaethau Terfynol). Mae'n dweud ei fod hefyd yn fodlon â'r darpariaethau mewn perthynas â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth o ystyried y cytundeb a wnaed gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar arfer y pwerau gwneud rheoliadau hynny.

Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod newidiadau pellach yn debygol o gael eu gwneud i'r Bil yng nghyfnod adrodd Tŷ'r Cyffredin ac yn Nhŷ'r Arglwyddi, ac os felly bydd memoranda pellach yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad fel y bo'n briodol. Oherwydd hyn, dywed Llywodraeth Cymru nad yw'n bosibl rhoi argymhelliad diamwys i'r Cynulliad gydsynio i'r Bil ar hyn o bryd.

O ran **is-ddeddfwriaeth Brexit**, rhoddodd Prif Weinidog Cymru wybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf yn sesiwn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol **ar 25 Mawrth**. Dywedodd fod 41 o offerynnau statudol yn ymwneud â Brexit wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru, a'u bod yn disgwyl un OS arall yn ymwneud â thaliadau gofal iechyd, gan ychwanegu eu bod yn aros ar safbwynt polisi Llywodraeth y DU cyn ffurfio OS Cymru. Dywedodd hefyd nad oes bwriad i wyth OS gael eu cyflwyno erbyn 29 Mawrth, ond nad oes eu hangen erbyn hynny, ac felly y cânt eu cyflwyno yn ddiweddarach.

Yn ystod y sesiwn, cyfeiriodd y Prif Weinidog hefyd at **ei ymateb** i adroddiad cynnydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar offerynnau statudol Brexit. Pan ofynnwyd iddo am y cydbwysedd rhwng Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig ac Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion Cymru, cyfeiriodd y Prif Weinidog at sefyllfa 'anghyffredin' Brexit:

> Where there is a policy issue in place, then we bring an SI to the Assembly itself so that it can be scrutinised by the body here. If we were not in the extraordinary times we are in, would we have drawn that line in a slightly different place on that spectrum? Well, I suppose we would have done, because we would not be under the enormous pressure of events that says that we have to have a functioning statute book ready to protect Welsh businesses, Welsh citizens and Welsh public services in place by 29 March. That's why I take a different view to the committee, because the committee did not appear to me to recognise the extraordinary pressures that this creates, and it slightly looked to me as though we had the luxury of time on our side, when clearly we do not.





# 3. Datblygiadau ym Mrwsel

Ar 25 Mawrth, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **ddatganiad** i ddweud ei fod wedi cwblhau ei gynlluniau wrth gefn ar gyfer Brexit 'dim cytundeb' a bod yr UE bellach yn barod ar gyfer senario 'dim cytundeb'. Fodd bynnag, dywedodd hefyd nad yw'r union drefniadau ar gyfer y ffin yn Iwerddon os bydd y DU yn gadael heb gytundeb wedi'u cwblhau eto.

Er mwyn helpu i gyfleu'r mesurau 'dim cytundeb' i ddinasyddion ar draws yr UE, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi **cyfres o grynodebau llai technegol** ac mae hefyd yn hyfforddi staff yn eu canolfan alwadau am bolisïau'r UE fel y gall weithredu fel llinell gymorth i ddelio â chynnydd mewn ymholiadau mewn senario 'dim cytundeb'.

Roedd y datganiad yn nodi y bydd pobl a nwyddau yn gorfod wynebu amseroedd aros hirach wrth groesi ffiniau os na fydd cytundeb. Mae'r UE wedi cadarnhau, os na fydd cytundeb, y caiff pasbortau dinasyddion Prydeinig nad ydynt yn byw yn yr UE ar hyn o bryd yn cael eu stampio ac y gofynnir cwestiynau iddynt wrth ddod i mewn i'r UE.

Mewn perthynas â'r ffin yn Iwerddon, **nodwyd** bod swyddogion mewn trafodaethau dwys gyda'r awdurdodau Gwyddelig am y materion hyn ac y byddant yn parhau â'r trafodaethau hyn ac yn eu dwysáu dros y dyddiau nesaf'.

Ychwanegwyd, pe na fyddai cytundeb, byddai angen i'r DU ac Iwerddon gymryd mesurau unochrog a dros dro i amddiffyn masnach, defnyddwyr ac iechyd cyhoeddus cyfreithiol, gan ddweud y byddai disgwyl i'r DU weithredu ar ei hymrwymiad i osgoi ffin galed tra'n amddiffyn sefyllfa Iwerddon yn y farchnad fewnol.

Ar 27 Mawrth, rhoddodd Donald Tusk **ddatganiad** i Senedd Ewrop ar gyfarfod diweddar y Cyngor Ewropeaidd lle cymeradwyodd y Cyngor gytundeb Strasbourg a rhoddodd estyniad byr i Erthygl 50 o dan ddau senario. O ran estyniad hir, cydnabu y byddai hynny'n golygu bod y DU yn cymryd rhan yn etholiadau Senedd Ewrop. Dywedodd fod rhai pobl yn dweud y byddai hyn yn niweidiol, ond dywedodd fod meddwl o'r fath yn annerbyniol:

> You cannot betray the six million people who signed the petition to revoke Article 50, the one million people who marched for a People's Vote, or the increasing majority of people who want to remain in the European Union. They may feel that they are not sufficiently represented by the UK Parliament, but they must feel that they are represented by you in this chamber. Because they are Europeans.

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **ddatganiad** ar 29 Mawrth, lle dywedodd ei fod yn gresynu at y bleidlais negyddol yn Nhŷ'r Cyffredin ar y Cytundeb Ymadael yn gynharach y diwrnod hwnnw. O ganlyniad i'r penderfyniad yn Nhŷ'r Cyffredin, cadarnhaodd y datganiad fod cyfnod trafod Erthygl 50 wedi cael ei ymestyn tan 12 Ebrill, ond yn ôl y Comisiwn, mater i'r DU fydd penderfynu ar y ffordd ymlaen cyn y dyddiad hwnnw i'w hystyried gan y Cyngor Ewropeaidd, gan ychwanegu bod gadael yr UE heb gytundeb bellach yn senario tebygol. Roedd y Comisiwn yn datgan:

> The EU has been preparing for this since December 2017 and is now fully prepared for a "no-deal" scenario at midnight on 12 April. The EU will remain united. The benefits of the Withdrawal Agreement, including a transition period, will in no circumstances be replicated in a "no-deal" scenario. Sectoral mini-deals are not an option.

Ar 29 Mawrth, **cyhoeddodd** Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, Donald Tusk, hefyd y bydd cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd Arbennig (Erthygl 50) yn cael ei gynnal ym Mrwsel ar 10 Ebrill er mwyn galluogi 27 aelod yr UE i drafod y datblygiadau diweddaraf ar Brexit yn dilyn gwrthod y Cytundeb Ymadael yn Nhŷ'r Cyffredin.

Ar 2 Ebrill, mewn **araith** yn y Ganolfan Polisïau Ewropeaidd yn dilyn yr ail rownd o bleidleisiau dangosol yn Nhŷ'r Cyffredin y diwrnod cynt, amlinellodd prif drafodydd Brexit yr UE, Michel Barnier, dri senario Brexit posibl ar gyfer y DU cyn cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ar 10 Ebrill:





1. **Pleidlais ystyrlon lwyddiannus yn y dyddiau nesaf:** Gan gyfeirio at yr ail rownd o bleidleisiau dangosol amhendant yn Nhŷ'r Cyffredin, dywedodd Mr Barnier fod yr UE yn barod i dderbyn Undeb Tollau, neu berthynas debyg i fodel Norwy. Dywedodd y gallai'r Datganiad Gwleidyddol fel y'i drafftiwyd ddarparu ar gyfer yr opsiynau hyn, ond y byddent hefyd yn agored i'w ail-lunio cyhyd â bod egwyddorion sylfaenol yr UE yn cael eu parchu. Dywedodd Mr Barnier na fyddai pleidleisio o blaid y Cytundeb Ymadael yn dangos diwedd y broses yn y DU gan y byddai angen i Seneddau'r DU a'r UE gadarnhau'r Cytundeb. Dywedodd nad oedd yn rhagweld problem gyda'r Cyngor Ewropeaidd yn rhoi estyniad byr i ganiatáu i hyn ddigwydd ond ychwanegodd mai penderfyniad 27 aelod yr UE fyddai hynny.
2. **Gadael yr UE heb gytundeb:** Dywedodd Mr Barnier nad oedd 'dim cytundeb' byth yn senario dymunol na'r hyn a fwriadwyd, ond ei fod yn dod yn fwy tebygol bob dydd. Pwysleisiodd fod 27 aelod yr UE yn barod ar gyfer 'dim cytundeb' ond dywedodd nad yw bod yn barod yn golygu na fydd aflonyddwch.
3. **Ymestyn Erthygl 50:** Esboniodd Mr Barnier y gallai'r DU ofyn am estyniad i gyfnod trafod Erthygl 50 yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ar 10 Ebrill. Fodd bynnag, dywedodd y byddai estyniad o'r fath yn golygu risgiau sylweddol i'r UE ac o ganlyniad, byddai angen cyfiawnhad cryf. Dywedodd Mr Barnier hefyd y bydd yn rhaid i'r DU gynnal etholiadau Ewropeaidd os yw'n parhau i fod yn Aelod-wladwriaeth ar 23 Mai.

Ar 3 Ebrill, daeth Cyngor a Senedd yr UE i gytundeb na fydd angen fisa ar ddinasyddion Prydain er mwyn teithio o fewn yr UE am gyfnodau byr o hyd at 90 diwrnod o fewn cyfnod o 180 diwrnod. Mae'r hawlildiad hefyd yn berthnasol i Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein a'r Swistir (ardal Schengen). Mae'r cytundeb yn cael ei roi ar yr amod bod Llywodraeth y DU yn gwneud yr un modd i ddinasyddion yr UE.

Ar 3 Ebrill, cynhaliodd Senedd Ewrop ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Brexit. Yn ystod y ddadl, dywedodd Jean-Claude Juncker:

> In light of Prime Minister May's statement last night, I believe we now have a few more days. If the United Kingdom is in a position to approve the Withdrawal Agreement with a sustainable majority by 12 April, the European Union should be prepared to accept a delay until 22 May.
>
> But 12 April is the ultimate deadline for the approval of the Withdrawal Agreement by the House of Commons. If it has not done so by then, no further short extension will be possible. After 12 April, we risk jeopardising the European Parliament elections, and so threaten the functioning of the European Union...
>
> Much of the debate in the House of Commons has related to the future relationship between the European Union and the United Kingdom. The European Union stands ready to add flexibility to the Political Declaration, to pave the way for a close economic partnership between the European Union and the United Kingdom in the future.
>
> We stand ready to refer to a range of options, from a free trade agreement, to customs arrangements, to a Customs Union all the way to the European Economic Area.

Yn dilyn y penderfyniad i ymestyn Erthygl 50 hyd at 31 Hydref 2019, **dywedodd** Donald Tusk:

> Tonight the European Council decided to grant the United Kingdom a flexible extension of the Article 50 period until the 31st of October. This means an additional 6 months for the UK. During this time, the course of action will be entirely in the UK's hands. It can still ratify the Withdrawal Agreement, in which case the extension will be terminated. It can also reconsider the whole Brexit strategy. That might lead to changes in the Political Declaration, but not in the Withdrawal Agreement. Until the end of this period, the UK will also have the possibility to revoke Article 50 and cancel Brexit altogether.
>
> The UK will continue its sincere cooperation as a full member state with all its rights, and as a close friend and trusted ally in the future.
>
> Let me finish with a message to our British friends: this extension is as flexible as I expected, and a little bit shorter than I expected, but it's still enough to find the best possible solution. Please do not waste this time.





# 4. Datblygiadau yng Nghymru

Yn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol **ar 25 Mawrth**, ymddangosodd y Prif Weinidog gerbron y Pwyllgor ar gyfer sesiwn craffu ar Brexit. Yn ystod y sesiwn, cafodd ei holi ar feysydd gan gynnwys trafodaethau diweddaraf Brexit, parodrwydd Llywodraeth Cymru, deddfwriaeth Brexit a materion rhynglywodraethol. Mae'r prif bwyntiau a wnaed gan y Prif Weinidog ar Brexit wedi'u crynhoi isod.

- O ran y camau nesaf, cadarnhaodd y Prif Weinidog ei farn y dylai Tŷ'r Cyffredin benderfynu a ddylid aildrafod y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol neu gynnal refferendwm arall. Dywedodd mai aros yn yr UE yw'r opsiwn gorau sydd ar gael o hyd, ond cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru yn parchu canlyniad refferendwm 2016.
- Mewn perthynas â chysylltiadau rhynglywodraethol ar ôl Brexit, cyfeiriodd y Prif Weinidog at yr adolygiad parhaus, er dywedodd, ers mis Medi na roddwyd blaenoriaeth i'r gwaith hwn gan fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi bod yn barod am Brexit heb gytundeb.
- Pan ofynnwyd iddo am ddeddfwriaeth Brexit, dywedodd y Prif Weinidog fod yna ddadansoddiad beunyddiol newidiol o sut y byddai canlyniadau gwahanol yn arwain at wahanol fathau o anghenion deddfwriaethol. Mewn perthynas â'r Bil Amaethyddiaeth, dywedodd fod y Llywodraeth yn hyderus y byddai'r Bil yn rhoi'r holl bwerau sydd eu hangen ar Weinidogion Cymru yn y tymor byr i barhau i ddylunio a chyflwyno system o gymorth amaethyddol yng Nghymru wrth iddynt ddatblygu Bil pwrpasol. .
- Pan ofynnwyd iddo a fyddai'n galw'r Cynulliad yn ôl er mwyn sicrhau bod gennym gyfle i graffu ar Fil Cytundeb Ymadael, dywedodd y byddai'n cael sgyrsiau â'r Llywydd mewn perthynas â'r dyddiad terfyn sef 12 Ebrill.
- Gofynnodd yr Aelodau hefyd ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r **llythyr** a gafodd y Pwyllgor gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weinidog fod ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwbl annefnyddiol gan y byddai ei awgrym ynghylch caniatáu i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau gwario mewn perthynas â'r gronfa yn golygu y byddai'r Cynulliad yn cael ei anwybyddu.

Yn y **Cyfarfod Llawn ar 26 Mawrth**, gofynnodd David Rees gwestiwn brys am safbwynt y Llywodraeth yn dilyn penderfyniad y Cyngor Ewropeaidd ar 21 Mawrth.

Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, fod 'rhywfaint o gysur' fod 27 aelod yr UE wedi cynnig cyfnod byr i osgoi Brexit 'dim cytundeb'. Croesawodd y broses o bleidleisiau dangosol yn y Senedd, gan ychwanegu bod yn rhaid i Brif Weinidog y DU 'roi'r gorau i'w llinellau coch trychinebus a gwrando.'

Pan ofynnwyd iddo am y posibilrwydd o ail refferendwm, dywedodd Jeremy Miles fod refferendwm yn un o ddwy ffordd o ymateb i'r sefyllfa bresennol:

> Rydym ni wedi bod yn eglur os oes cytundeb ar gael sy'n adlewyrchu egwyddorion 'Diogelu Dyfodol Cymru'—un o bartneriaeth agos a chyfochri yn y dyfodol—mai dyna'r ffordd ymlaen yr ydym ni'n ei hyrwyddo, ac yn absenoldeb hynny, yna bydd angen refferendwm arall er mwyn i ni allu bwrw ymlaen.

Ar 27 Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, **ddatganiad ysgrifenedig** ar gynlluniau wrth gefn Brexit a chaffael stordy. Mae hyn yn dilyn sylwadau Jeremy Miles yn sesiwn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar barodrwydd 'dim cytundeb' ar 11 Mawrth.

Yn y datganiad, dywedodd y Gweinidog fod y Llywodraeth wedi caffael stordy yn ne-ddwyrain Cymru i ddarparu lle storio ychwanegol ar gyfer dyfeisiau meddygol a nwyddau traul clinigol er mwyn sicrhau bod digon o gyflenwad yng Nghymru. Ychwanegodd y bydd hi'n bosibl stocio eitemau gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn y cyfleuster, sy'n golygu bod dibyniaeth ar gadwyni cyflenwi allanol yn lleihau a bod gwydnwch yn cynyddu.

Ar 29 Mawrth, ar ôl i'r Cytundeb Ymadael gael ei wrthod yn Nhŷ'r Cyffredin, dywedodd y Prif Weinidog Mark Drakeford mewn **neges drydar**:

> Prif Weinidog y DU sy'n gyfrifol am y ffars yma, sydd mewn perygl o droi'n drasiedi genedlaethol.
>
> Rhaid i ASau roi'r wlad yn gyntaf a dod o hyd i gyfaddawd a all sicrhau mwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin. Os bydd hyn yn methu, yr unig ffordd ymlaen yw rhoi'r penderfyniad yn ôl yn nwylo'r bobl drwy bleidlais gyhoeddus.



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

Dri diwrnod yn ddiweddarach, yn dilyn ail rownd o bleidleisiau dangosol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 1 Ebrill, dywedodd y Prif Weinidog mewn **neges drydar** bod amser o hyd i Senedd y DU ddod o hyd i ffordd 'ond rydym yn symud yn beryglus o agos at #NoDeal trychinebus'. **Ychwanegodd**:

> Mae ein hopsiynau yn parhau i gulhau. Os nad oes modd datrys yr anghytundeb llwyr hwn ac mae'r Tŷ Cyffredin yn methu cytuno ar ffordd ymlaen, yna dylid mynd â'r penderfyniad yn ôl at y bobl drwy bleidlais gyhoeddus.

Ar 2 Ebrill 2019, rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, **ddiweddariad** ar drafodaethau'r UE yn y cyfarfod llawn yn dilyn ail rownd o bleidleisio dangosol yn San Steffan y noson gynt.

Cadarnhaodd y Gweinidog ddymuniad Llywodraeth Cymru i ddod i gyfaddawd. Anogodd y Senedd i ddod o hyd i gonsensws sefydlog sy'n adlewyrchu pleidleisiau diweddar am berthynas agosach ar ôl Brexit drwy undeb tollau ac aelodaeth o'r AEE. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn croesawu'r glymblaid sy'n dod i'r amlwg o blaid undeb tollau, ond mae'n parhau i gredu mai'r canlyniad economaidd gorau fyddai rhan lawn yn y farchnad sengl hefyd. Ymhellach, byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi Datganiad Gwleidyddol wedi'i ailysgrifennu fel sail ar gyfer pasio'r Cytundeb Ymadael ar yr amod:

> Os deëllir yn glir fod hyn yn ychwanegol at yr ymrwymiadau a wnaeth Llywodraeth y DU eisoes o ran cael cyfatebiaeth i reolau'r farchnad sengl o ran nwyddau ac amaethyddiaeth.

Pe byddai Llywodraeth y DU yn ymgorffori'r amcanion hyn mewn deddfwriaeth, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai hyn "yn ei gwneud hi bron yn sicr na fyddai byth angen y cytundeb wrth gefn". Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod wedi ysgrifennu at David Lidington, Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn, i annog Llywodraeth y DU ar yr un pryd i ymrwymo i rôl statudol i'r Gweinyddiaethau Datganoledig mewn trafodaethau yn y dyfodol. Gorffennodd y Gweinidog drwy annog y Senedd i gefnogi'r opsiwn o ail refferendwm fel ateb amgen.

Yn ystod **Cwestiynau'r Prif Weinidog** ar 2 Ebrill 2019, gofynnodd arweinydd Plaid Cymru, Adam Price, farn y Prif Weinidog ar ganlyniadau'r pleidleisiau dangosol a gynhaliwyd ar 1 Ebrill.

Mewn ymateb, pwysleisiodd y Prif Weinidog "rydym ni'n wynebu'r adeg fwyaf difrifol yn y daith Brexit gyfan hon". Mewn ymateb i gwestiynau pellach ynghylch y dewis a ddisgrifiwyd gan Brif Weinidog y DU o wynebu naill ai senario dim cytundeb neu ddiddymu Erthygl 50, dywedodd y Prif Weinidog:

> Oherwydd yr effaith ddifrifol y byddai Brexit disgyn allan yn ei chael ar bobl yma yng Nghymru, ar yr adeg honno, pe byddwn i'n bwrw pleidlais, byddwn yn ei bwrw dros ddirymu, gan fod y canlyniadau mor drychinebus i deuluoedd yng Nghymru. Ond i mi, byddai'n rhaid iddi fod yn sicr ein bod ni'n gwybod ein bod ni yn y funud olaf honno, gan fod canlyniadau cyfansoddiadol a gwleidyddol defnyddio'r cam gweithredu hwnnw yn hynod, hynod ddifrifol.

Yn ystod cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Ebrill 2019, gofynnwyd dau gwestiwn i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit yn ymwneud â Brexit. Mewn ymateb i **gwestiwn** ar hawliau dinasyddion Cymru i herio penderfyniadau amgylcheddol ar ôl Brexit, dywedodd fod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar drefniadau llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol yn mynd rhagddo a bydd yn ceisio sicrhau "trefniadau llywodraethu cydlynol ac effeithiol ar gyfer dinasyddion Cymru." Dywedodd y Gweinidog fod trafodaethau gyda Llywodraeth y DU wedi bod yn mynd rhagddynt ers peth amser ynghylch deddfwriaeth ledled y DU yn y maes hwn i sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn digwydd ochr yn ochr, ond roedd yn cydnabod y "sefyllfa wahanol" o ran diogelu a hawliau amgylcheddol Cymru.

**Cadarnhaodd y Gweinidog farn Llywodraeth Cymru** hefyd na ddylai Brexit arwain y ffordd at unrhyw atchweliad o hawliau, gyda thrafodaethau ar gryfhau a hyrwyddo hawliau eisoes ar y gweill. Wrth gael ei holi ymhellach ynghylch a allai Cymru ymgorffori'r hawliau a sefydlwyd gan Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE, dywedodd y Gweinidog er y byddai hyn y tu allan i gymhwysedd, dywedodd hefyd fod ymchwil ar y gweill a fydd yn egluro'r fframwaith a'r cwmpas sydd ar gael i Lywodraeth Cymru fel ffordd o ddeddfu ar gyfer hawliau o'r fath.

Ar 3 Ebrill, rhoddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd **ddadansoddiad** o ddyraniadau cyllid diweddar Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb gan ddefnyddio cronfa drosglwyddo Brexit:

> Mae rhywfaint o'r arian hwnnw wedi mynd i'r gronfa cydnerthedd busnes—sef £1.7 miliwn; aeth £1.2 miliwn tuag at gryfhau gallu awdurdodau lleol i ymateb i Brexit; £435,000 ar gyfer datblygu capasiti'r heddlu i ymateb i unrhyw argyfyngau sifil; £0.5 miliwn ar gyfer fforymau Cymru gydnerth lleol, a fydd yn cydlynu'r ymateb i argyfyngau sifil, wrth iddynt godi; a £0.5 miliwn i ehangu'r ddarpariaeth o wybodaeth a chymorth, gan gynnwys cyngor ar fewnfudo, i helpu dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru.





Ar 3 Ebrill, cyfarfu Prif Weinidog Cymru â Phrif Weinidog y DU i gael trafodaethau ar Brexit. Yn dilyn y trafodaethau, **dywedodd** ei bod hi'n ymddangos bod Prif Weinidog y DU yn barod i wrando, a'i fod yn gobeithio ei bod hi wedi dod i'r casgliad y gellir dod i gytundeb gwahanol gyda chefnogaeth drawsbleidiol yn Nhŷ'r Cyffredin. Roedd yn gobeithio mai dyma beth oedd y deialog trawsbleidiol yn ceisio ei gyflawni.

Ar 9 Ebrill, **ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at Brif Weinidog y DU** i'w hannog i ddangos hyblygrwydd yn ei thrafodaethau â 27 aelod yr UE, ac i ofyn am estyniad er mwyn osgoi Brexit 'heb gytundeb'.

Wrth ymateb i ymestyn Erthygl 50, **dywedodd** Prif Weinidog Cymru:

> Mae hwn yn gyfle inni gael ein gwynt atom ac yn gyfle arall i Dŷ'r Cyffredin sicrhau cytundeb – ar y math o Brexit rydyn ni wedi galw amdano ers tro, ac a fydd, gobeithio, yn arwain at lai o niwed i'n heconomi, neu at bleidlais newydd i'r bobl; neu hyd yn oed at y ddau..
>
> Mae angen mwy o sicrwydd ar ein busnesau a'n dinasyddio cyn gynted â phosibl. Allwn ni ddim gwastraffu mwy o amser ar anwadalwch a llinellau coch caeth. Mae'n bryd 'nawr ceisio consensws a chyfaddawdu i osgoi sefyllfa lle byddwn ni, unwaith eto, yn cyfri'r dyddiau.

Ar 11 Ebrill, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru **ddatganiad ysgrifenedig** mewn ymateb i'r cytundeb i ymestyn Erthygl 50.